Bwletin Gwybodaeth
Mehefin 2008

Annwyl Gyfeillion,

Ychydig o wybodaeth i'ch sylw:

CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT CYMRU GYFAN 2008

Dilys Williams o Incredible Years Cymru yn derbyn y copi cyntaf!

Rydym bellach wedi derbyn crynodeb o'r newidiadau a'r ychwanegiadau i Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2002 sef yr hyn a welir yn y Canllawiau newydd. Bu i nifer ohonoch wneud cais i gael gwybodaeth ynghylch yr hyn sydd wedi newid neu'n newydd yn ystod Cynhadledd Y Fforwm Plant a Theuluoedd ym Meifod yn Ebrill, 2008. Gellir dod o hyd i gopi o'r ddogfen (Saesneg yn unig mae gen i ofn) o dan y pennawd '**Dogfennau**' ar waelod tudalen '**Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc**' yn adran '**Gwaith Mantell, Partneriaethau**' ar ein gwefan: **www.mantellgwynedd.com**. Gellir teipio'r ddolen gyswllt ganlynol i mewn i'ch porwr i gyrraedd y dudalen berthnasol: **http://www.mantellgwynedd.com/cym/gwacynrhb.html**

HEFYD - NODER!
I'r rhai ohonoch (mudiadau Trydydd Sector yn unig) sydd heb gasglu eich copiau o'r 'Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008' (sy'n weithredol ers Ebrill 1af eleni), bydd disgwyl i chi wneud hynny cyn diwedd Mehefin, 2008 fan bellaf! Bydd pob copi sydd ar ôl yn ein swyddfeydd ni ym Mantell Gwynedd wedi hynny, yn cael eu dychwelyd i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. **Rwy'n erfyn arnoch felly os gwelwch yn dda, i wneud pob ymdrech i gasglu eich copi (sy'n rhad ac am ddim) cyn gynted â phosib, cyn bo'r cyfle'n cael ei golli!**

ADRODDIAD ESTYN O WASANAETHAU CYMORTH IEUENCTID GWYNEDD

Estyn
Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mae'n siwr fod pob un ohonoch yn ymwybodol bellach fod Estyn wedi ymweld â Gwynedd yn ystod Mawrth 2008 i arolygu gwasanaethau cymorth ieuenctid. **Nod Estyn yw:** *'Codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chynghori, i gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'.*

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd oedd yn arwain ar y broses a bu nifer ohonoch o'r Trydydd Sector yn gysylltiedig â'r trefniadau ynghyd â'r cyfweliadau fu'n dilyn.

Mae'r adroddiad terfynnol wedi ei gyhoeddi bellach a gellir lawrlwytho copi ohono unai oddi ar wefan Estyn: **http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports/cy_Gwynedd_mar_2008.pdf** neu o wefan Mantell Gwynedd yn yr adran '**Dogfennau**' ar waelod y dudalen ganlynol: **http://www.mantellgwynedd.com/cym/gwacynrhb.html**.

parhad Bwletin Gwybodaeth

Mehefin 2008

CYNLLUN PLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD 'EIN CYNLLUN NI, EICH CYNLLUN CHI'

Cyhoeddwyd fersiwn drafft o Gynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd **'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi'** ar gyfer cyfarfod ar y cyd o'r Bartneriaeth Strategol a'r Uwch Grŵp Cynllunio a Datblygu yn ystod mis Mai eleni. Prif bwrpas y ddogfen yw amlygu cynlluniau a blaenoriaethu Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd am y tair blynedd rhwng 2008 a 2011fel sail ar gyfer hyrwyddo lles plant a phobl ifanc y sir. Cafodd y partneriaid oedd yn bresenol gyfle i drafod y cynnwys a derbyniwyd nifer o sylwadau a olygodd bod rhaid addasu ychydig arni cyn ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori'n swyddogol arni. Mae'r fersiwn diwygiedig wedi cael ei chyhoeddi erbyn hyn, a'r gobaith yw y bydd modd i bawb gael mynediad at unai gopi caled neu gopi electroneg ohoni. Bydd copi syml ar gyfer plant a phobl ifanc (neu unrhyw un arall fyddai'n gwerthfawrogi fersiwn syml o ran hynny!) yn cael ei chyhoeddi maes o law hefyd.

Mae modd lawrlwytho copi electroneg o'r ddogfen **lawn** oddi ar wefan Mantell Gwynedd! Y ddolen gyswllt i'r dudalen berthnasol ar wefan Mantell Gwynedd yw: **http://www.mantellgwynedd.com/cym/gwacynrhb.html**. Fe'i gwelir yn yr adran **'Dogfennau'** ar waelod y dudalen hon.

Mae'n fwriad gan Mantell Gwynedd mewn cyd-weithrediad â'r Fforwm Plant a Theuluoedd i ymateb i'r ddogfen dan sylw. O ganlyniad, bydd cyfarfod llawn nesaf y Fforwm Plant a Theuluoedd (fydd yn cael ei gynnal am 2.00 o'r gloch ar **15fed Gorffennaf** ac nid ar y 14eg fel y nodwyd eisoes), yn canolbwyntio ar y ddogfen hon. Dylai gwahoddiad yn eich gwyso i fynychu'r cyfarfod eich cyrraedd yn fuan!

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ddogfen drafft fydd 31 Gorffennaf, 2008

PROTOCOL CYFRANOGI A DIOGELU, BLLDP GWYNEDD

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad syml ac ymarferol i'r arferion gorau o ran diogelu wrth drefnu gweithgareddau cyfranogi. Mae'r protocol wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd. I lawrlwytho copi o'r ddogfen, ewch eto i **http://www.mantellgwynedd.com/cym/gwacynrha.html**. Gweler y ddogfen yn yr adran **'Dogfennau'** ar waelod y dudalen hon.

Diolch yn fawr am eich sylw,

Am ragor o wybodaeth ynghylch unrhyw eitem a ymddangosir, cysylltwch ag:
Ann Vaughan Jones (Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc) ar: **Ffôn - 01286 672626** neu **e-bost - annvaughan@mantellgwynedd.com**
Mantell Gwynedd, 24-26 Stryd Fawr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RH